

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Moeseg a Safonau
DYDDIAD:	5 Mehefin 2023
LLEOLIAD:	Hybrid
TEITL:	Adolygu Datganiad o Weledigaeth y Pwyllgor Moeseg a Safonau
Cefndir	

Rhannwyd Datganiad o Weledigaeth presennol y Pwyllgor Moeseg a Safonau gydag aelodau'r Pwyllgor ar 22 Chwefror 2023.

Roedd Datganiad o Weledigaeth y Pwyllgor Moeseg a Safonau fel a ganlyn:

“Ein gweledigaeth yw y bydd gan bobl Ceredigion ffydd ac ymddiriedaeth fod pob un a etholwyd i weithredu mewn llywodraeth leol yn ein sir yn cynnal y safonau moesegol a moesol uchaf wrth wasanaethu eu cymuned”.

Gofynnodd y Swyddog Safonau i'r aelodau rannu unrhyw sylwadau/newidiadau arfaethedig y byddent yn dymuno gweld yn cael eu gwneud.

Cafwyd yr ymatebion canlynol:

- * Cytunodd tri aelod o'r pwyllgor fod y datganiad o weledigaeth yn dal yn addas i'r diben.
- * Cynigiodd un o'r aelodau newid bychan a fyddai'n golygu ychwanegu “a busnesau” ar ôl “bobl”.

CYTUNWYD ar 3ydd Ebrill i ohirio'r penderfyniad ynghylch geiriad y datganiad fel y gellid ystyried y cynnig i ychwanegu'r geiriau 'busnesau a sefydliadau' ar ôl 'bobl'.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor drafod a chytuno ar y geiriad a ffefrir dros e-bost, er mwyn adrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Mae'r Aelodau wedi cytuno bod datganiad gweledigaeth yn dal i fod yn addas i'r diben.

ARGYMHELLIAD:

Cytuno bod y datganiad gweledigaeth yn dal i fod yn addas i'r diben.

Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:

- **Er mwyn sicrhau bod y datganiad o weledigaeth yn addas i'r diben**

Enw Cyswllt: Lisa Evans
Swydd: Swyddog Craffu a Safonau
Dyddiad yr Adroddiad: 25 Mai 2023
Acronymau:

|